24 Gorffennaf 2019

**CRYNODEB Y WASG**

**Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y Swyddfa Gartref (Apelydd) v Franco Vomero (Yr Eidal) (Gwrthapelydd)**
**[2019] UKSC 35**
***Ar apêl gan [2012] EWCA Civ 1199***

**USTUSIAID**: Arglwyddes Hale (Llywydd), Arglwydd Reed (Dirprwy Lywydd), Arglwydd Wilson, Arglwydd Mance, Arglwydd Hughes

## CEFNDIR I'R APÊL

Mae'r Gwrthapelydd, Mr Franco Vomero, yn wladolyn o'r Eidal sydd wedi byd yn y Deyrnas Unedig ers 1985. Ym 1998 daeth ei briodas i'w wraig Brydeinig i ben, ac fe symudodd i lety gyda Mr Edward Mitchell. Yn 2001, fe laddodd Mr Mitchell. Yn 2002, cafodd ei ddedfrydu i wyth mlynedd o garchar am ddynladdiad. Yn 2006 fe gwblhaodd y rhan carchariad o'i ddedfryd. Ar 23 Mawrth 2007 penderfynodd yr Ysgrifennydd Cartref ei alltudio dan reoliadau 19(3)(b) a 21 y Rheoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2006. Mae rheoliad 21 yn gweithredu erthyglau 27 a 28 Cyfarwyddeb 2004/38/EC ("**Cyfarwyddeb**").

Yn Hydref 2007 gwrthododd y Tribiwnlys Mewnfudo a Lloches ("**IAT**") apêl Mr Vomero yn erbyn y penderfyniad alltudiaeth. Gorchmynnodd Uwch Farnwr Mewnfudo y dylid ailystyried penderfyniad yr IAT. Wedi ailystyried, caniataodd yr IAT apêl Mr Vomero. Gwrthododd y Llys Apêl gais yr Ysgrifennydd Gwladol i apelio yn erbyn ail benderfyniad yr IAT. Apeliodd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Goruchaf Lys.

Yn dilyn gwrandawiad cychwynnol o'i apêl yn 2016, cyfeiriodd y Goruchaf Lys nifer o gwestiynau ar Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ("**CJEU**"). Esboniwyd rhesymau'r Goruchaf Lys dros atgyfeirio mewn dyfarniad gan yr Arglwydd Mance. Wedi i'r CJEU ddarparu ei ddyfarniad ar 17 Ebrill 2018, cynhaliodd y Goruchaf Lys wrandawiad pellach ar 7 Chwefror 2019.

## DYFARNIAD

Mae'r Goruchaf Lys yn caniatáu'r apêl yn unfrydol. Mae'r Arglwydd Reed, gyda chytundeb gweddill y Llys, yn cyflwyno'r dyfarniad.

## RHESYMAU DROS Y DYFARNIAD

Yn yr atgyfeiriad, gofynnodd y Goruchaf Lys os yw hawl i breswylio'n barhaol ("**RPR**") yn rhagofyniad ar gyfer diogelwch uwch yn erbyn eithrio yn unol ag erthygl 28(3)(a) y Gyfarwyddeb, fel yr ategwyd gan y Llys Apêl. Yn unol â'r erthygl honno, "*ni ellir penderfynu alltudio yn erbyn dinasyddion yr Undeb, ar wahân i os yw'n seiliedig ar sail hanfodol diogelwch cyhoeddus, fel y diffiniwyd gan nifer o wladwriaethau, os ydynt wedi preswylio yn yr aelod wladwriaeth letya yn ystod y deng mlynedd diwethaf*". Cynhaliodd y CJEU bod RPR yn rhagofyniad ar gyfer hyn, oherwydd mae erthygl 28 yn darparu cynllun amddiffyn graddedig, ble mae'r elfen o amddiffyniad yn adlewyrchu elfen integreiddiad yr unigolyn i'r aelod wladwriaeth letya. **[26]**

Yn nyfarniad cychwynnol y Goruchaf Lys, casglodd yr Arglwydd Mance nad oedd Mr Vomero wedi caffael yr hawl i breswylio'n barhaol yn y Deyrnas Unedig erbyn dyddiad y penderfyniad i'w alltudio, er gwaethaf ei nifer o flynyddoedd o breswylio, oherwydd roedd ei garchariad rhwng 2001 a 2006 yn golygu nad oedd wedi preswylio'n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig am gyfnod parhaus o bum mlynedd erbyn 30 Ebrill 2006, sef pan oedd y Gyfarwyddeb i fod yn weithredol, nac ar ddyddiad hwyrach cyn y penderfyniad i'w alltudio. **[30]**

Dadleuir nawr ar ran Mr Vomero ei bod yn anghywir i'r Goruchaf Lys casglu nad oedd ganddo RPR, oherwydd fe nododd y CJEU yn ystod ei ddyfarniad bod y cwestiwn yr oedd yn cyfeirio ato yn seiliedig ar y cynsail nad oes ganddo RPR, ac nad oedd ganddo'r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn asesu a oedd y cynsail yn gywir. Mewn ymateb, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynnal bod casgliad yr Arglwydd Mance yn gywir ond yn ildio y bydd yn agored i Mr Vomero ddadlau ei fod wedi caffael hawl i breswylio'n barhaol ers dyddiad y penderfyniad i'w alltudio. **[31]-[32]**

Nid yw'r gosodiad y dywedodd y CJEU nad oedd yn gallu ei asesu, sef nad oes gan Mr Vomero RPR, yr un fath â chasgliad yr Arglwydd Mance, sef na ddylai Mr Vomero fod wedi cael RPR erbyn 23 Mawrth 2007. **[33]** Mae hyn hefyd yn wir am arsylwadau cychwynnol yr Adfocad Cyffredinol. **[34]**

Yr awdurdod blaenllaw ar arwyddocâd carchariad parthed caffael RPR yw *Onuekwere v Ysgrifennydd Cartref* (Achos C-378/12) [2014] 1 WLR 242, ble cynhaliodd y CJEU na ellid ystyried cyfnodau o garchariad i ystyriaeth i ddibenion cyfrifo hyd preswyliad yr hawliwr yn y Deyrnas Unedig, a'i fod yn ymyrryd ar barhad preswyliad o'r fath. **[42]**

Mae'r achos presennol yn wahanol i *Onuekwere* o ran bod Mr Vomero wedi cwblhau dros bum mlynedd o breswyliad cyfreithlon parhaus yn y Deyrnas Unedig cyn ei garcharu yn 2001. Fodd bynnag, roedd y cyfnod o garchariad am fwy na dwy flynedd a gyflawnodd erbyn 30 Ebrill 2006 yn ei atal rhag caffael hawl i breswylio'n barhaol ar y dyddiad hwnnw, yn yr un modd ag y byddai absenoldeb o'r Deyrnas Unedig neu fod allan o waith am ddwy flynedd wedi gwneud, yn dilyn *Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau v Lassal* (Achos C-162/09) [2001] 1 CMLR 31 ac *Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau v Dias* (Achos C-325/09) [2011] 3 CMLR 40. Felly, ni allai'r cyfnod angenrheidiol o bum mlynedd o breswylio parhaus gychwyn yn ddim cynharach na phan gwblhaodd y rhan o'i ddedfryd oedd yn garchariad, ac nid oedd wedi cwblhau pum mlynedd o breswylio parhaus erbyn gwneud y penderfyniad i'w alltudio. **[45]**

Bydd angen i'r tribiwnlys, pan fydd yr achos hwn yn cael ei ddychwelyd, ystyried nid yn unig os yw Mr Vomero wedi cael hawl i breswylio'n barhaol ers dyddiad y penderfyniad i'w alltudio, ond hefyd os oes yna "*sail polisi cyhoeddus neu ddiogelwch cyhoeddus*" o fewn ystyr erthygl 28(1) y Gyfarwyddeb ble gellid cyfiawnhau ei alltudiaeth ar sail hyn. **[47]**

*Mae cyfeiriadau mewn cromfachau sgwâr at baragraffau yn y dyfarniad.*

**NODYN**

**Darperir y crynodeb hwn i gynorthwyo o ran deall penderfyniad y Llys. Nid yw'n rhan o'r rhesymau dros y penderfyniad. Dyfarniad llawn y Llys yw'r unig ddogfen awdurdodol. Mae dyfarniadau yn ddogfennau cyhoeddus ac ar gael ar:**
http://supremecourt.uk/decided-cases/index.html